SWYDDOGOL

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# CYNLLUN YMWELIADAU ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024–2025

Ebrill 2024–Mawrth 2025

## Diweddariad ar Adroddiad Blynyddol Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa:

### Ebrill 2024 - Mawrth 2025 - Data o'r Ddalfa

| Cyfanswm yr oedolion a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion a gedwir yn y ddalfa |
|---|---|---|
| 6,682 | 372 | 7,054 |

### Ebrill 2024 - Mawrth 2025 - Data o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

| Nifer yr ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa | Cyfanswm unigolion a gedwir yn y ddalfa ar adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa | Cyfanswm yr oedolion a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa | Nid yw cyfanswm yr unigolion a gedwir yn y ddalfa ar gael | Nifer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm nifer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 130 | 396 | 364 | 32 | 84 | 136 | 176 |

O gymharu'r ffigurau o'r flwyddyn flaenorol, cynhaliodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa un ymweliad ychwanegol eleni.

Roedd 19 yn fwy o unigolion a gedwir yn y ddalfa pan ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol yr adeg hon y llynedd, sy'n gynnydd o 4.8%.

Ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ag wyth yn fwy o unigolion a gedwir yn y ddalfa o'i gymharu â'r llynedd ac arsylwyd ar 30 yn fwy.

Ebrill 2024–Mawrth 2025

## Dadansoddiad o'r ymweliadau a gynhaliwyd o bob rhanbarth

### Dafen - Sir Gaerfyrddin







### Hwlffordd - Sir Benfro






Ebrill 2024–Mawrth 2025

**Aberystwyth-Ceredigion**







**Aberteifi - Ceredigion**






Ebrill 2024–Mawrth 2025

**Aberhonddu - De Powys**







**Y Drenewydd - Gogledd Powys**






Ebrill 2024–Mawrth 2025










Dylanwadwyd ar nifer o ymweliadau gan gau dalfeydd, gan gynnwys:

- Aberystwyth Hydref–Rhagfyr 2024
- Aberteifi Rhagfyr 2024–Chwefror 2025
- Y Drenewydd Ionawr–Ebrill 2025.

Ystyrir Dafen fel y ddalfa fwyaf a phrysuraf o'r holl ddalfeydd gyda 18 o gelloedd, ac yna Hwlffordd yn agos iawn gyda 17 o gelloedd; felly, byddai disgwyl y byddai nifer uwch o ymweliadau'n cael eu cynnal yn y rhanbarthau hyn.

Bob tri mis rydym yn cynnal cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa sy'n cynnwys Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa, gwasanaethau cadwraeth a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu i drafod materion perthnasol. Mae amlder yr ymweliadau wedi'i amlygu a'i nodi gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, a ystyrir yn hanfodol er mwyn peidio â bod yn rhagweladwy.

Ebrill 2024–Mawrth 2025







O'r graffiau uchod, mae'n amlwg bod themâu parhaus gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, problemau staffio, oedi i fynd i mewn i'r ddalfa, galwadau Opsiwn 1 ac eitemau crefyddol wedi lleihau'n sylweddol neu nid ydynt yn broblem yn y dalfeydd mwyach. Mae hyn yn dangos y bartneriaeth rhwng gwasanaethau'r ddalfa ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa dros y flwyddyn ddiwethaf a thystiolaeth o atebolrwydd wrth wella gwasanaethau gyda materion a godwyd o ymweliadau Ymwelwyr â'r Ddalfa yn cael eu cywiro.

Ebrill 2024–Mawrth 2025

## Dadansoddiad o faterion "Eraill" a nodwyd o bob rhanbarth




Mae rhestr o faterion "Eraill" a nodwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cynnwys pryderon mewn perthynas â'r canlynol:

Darpariaeth ar gyfer seiniwr allanol, nwyddau mislif ar gyfer menywod, esgidiau cynfas i unigolion a gedwir yn y ddalfa, pryderon ynghylch clymiadau, diffyg dillad gwrth-niwed, gweithredu marciwr ar gyfer Mecca, mainc wedi'i hadfer gan ddesg y ddalfa, teledu cylch cyfyng, ail derfynell gyfrifiadurol a diffyg deunydd darllen. Am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r materion hyn, gweler *Uchafbwyntiau'r Cynllun a'r adran Arall*.

Ebrill 2024–Mawrth 2025

## Dadansoddiad o wirfoddolwyr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Ebrill 2024–Mawrth 2025

**Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn weithredol yn Ch1: 14**

- Sir Benfro: 3
- Powys: 3
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 5

*Roedd pedwar ymgeisydd newydd yn y broses o gael eu gwirio. Roedd tri Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*

**Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn weithredol yn Ch2: 13**

- Sir Benfro: 3
- Powys: 3
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 4

*Roedd pedwar ymgeisydd yn dal i gael eu gwirio ac roedd tri gwirfoddolwr yn parhau ar seibiant dros dro o'r cynllun. Fodd bynnag, gadawodd dau aelod wedi hynny..*

**Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn weithredol yn Ch3: 16**

- Sir Benfro: 5
- Powys: 4
- Ceredigion: 1
- Sir Gaerfyrddin: 6

*Roedd dau ymgeisydd newydd yn cael eu gwirio a dim ond dau wirfoddolwr yn cymryd seibiant o'r cynllun. Gadawodd un y cynllun.*

**Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn weithredol yn Ch4: 17**

- Sir Benfro: 5
- Powys: 4
- Ceredigion: 2
- Sir Gaerfyrddin: 6

*Roedd tri ymgeisydd newydd arall yn cael eu prosesu ar gyfer eu gwirio a dau wirfoddolwr yn cymryd seibiant o'r cynllun. Ar ôl chwarter 4, mae dau aelod wedi gadael y cynllun ers hynny.*






Mae cynllun Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa wedi gweld ystod ehangach o ran oedran dros y chwarter diwethaf ac mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i fod wedi ymrwymo i gynrychioli demograffeg Dyfed-Powys; tra hefyd yn sicrhau bod gwirfoddolwyr sydd wedi dangos diddordeb ac ymrwymiad yn cael eu dewis i fod yn rhan o'r tîm. Dim ond 47% o’r ymwelwyr sy’n 66 oed a hŷn o'i gymharu ag 80% y llynedd. Mae'r cynllun hefyd wedi llwyddo i recriwtio chwech aelod newydd er bod pump aelod yn gadael.

Mae ethnigrwydd ein gwirfoddolwyr i gyd yn Wyn Prydeinig ac er y cydnabyddir nad yw hyn yn gynrychioliadol o ardal ddemograffig Dyfed a Phowys, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i gyrraedd pob cymuned trwy barhau â'i gweithgareddau ymgysylltu cymunedol a dysgu o bob profiad.  Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi bod i nifer o ddigwyddiadau i helpu i gefnogi'r ymgyrch recriwtio ar gyfer cynllun Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa a chyfeirir at hyn ymhellach yn ein hadran *Recriwtio* isod.

## Uchafbwyntiau'r Cynllun o Ebrill 2024–Fawrth 2025:

| |
|---|
| Gofal iechyd<br>• Negododd Heddlu Dyfed-Powys ddarparwr contract newydd i gyflenwi gofal iechyd proffesiynol i ddalfeydd, a ddechreuodd ym mis Hydref 2024. Ers hynny, dim ond tri phryder ynglŷn â gofal iechyd proffesiynol a godwyd yn ymwneud â'r canlynol:<br>- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddim yn cloi'r ystafell feddygol pan nad ydyn nhw'n defnyddio'r gofod hwn.<br>- Mynegodd Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa bryderon ynghylch y ffordd 'goddefol-ymosodol' y gwnaeth y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ymateb i'w gwestiynau.<br>- Mynegwyd pryder mewn perthynas â diffyg staff gofal iechyd proffesiynol dros nos yn nalfeydd Aberhonddu a Hwlffordd. |
| Materion o ran staffio<br>• Yn chwarter 2, roedd problemau staffio wedi cael eu hamlygu fel y prif bryder ac effaith hyn ar y canlynol:<br>- Llesiant staff y ddalfa<br>- Cynnal hawliau a hawlogaethau'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa<br>- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wrth gael mynediad ar unwaith a chael eu hebrwng o amgylch y ddalfa.<br>• Codwyd y materion hyn yng nghyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Rhoddwyd sicrwydd gan y Prif Gwnstabl bod cynlluniau recriwtio ar y gweill a bod mesurau cydnerthedd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r mater. Ers hynny dim ond tri digwyddiad sydd wedi eu hadrodd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa lle ystyriwyd bod lefelau staffio yn broblem. Mae'r heddlu wedi bod yn y broses o hyfforddi rhingylliaid gweithredol i dderbyn hyfforddiant yn y ddalfa i ddarparu gwydnwch ac mae rotas staff y ddalfa bellach yn cael eu halinio â Swyddogion y Ddalfa a Thywys i sicrhau bod dyletswyddau wedi'u halinio'n well. |

| |
|---|
| **Oedi i fynd i mewn i'r ddalfa**<br>• Materion o ran staffio oedd yn rhannol gyfrifol am oedi i fynd i mewn i'r ddalfa yn chwarter 2, ac arweiniodd hyn at roi'r gorau i nifer o ymweliadau.<br>• Ers chwarter 3, nid yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi profi unrhyw oedi i fynd i mewn i'r ddalfa, sy'n awgrymu bod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cyfrannu at effeithlonrwydd gweithdrefnau'r ddalfa a lefelau staffio. |
| **Eitemau crefyddol**<br>• Roedd y ffordd y cafodd eitemau crefyddol eu storio wedi'i nodi fel pryder yn chwarter 1 a chwarter 2 yn Dafen. Mae'r mater yn ymwneud â sut y dylid lapio a storio pob eitem crefyddol a matiau gweddi yn gywir, nid ochr yn ochr ag eitemau storio eraill fel esgidiau, papur toiled neu unrhyw eiddo personol arall yn unol â chanllawiau Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.<br>• O fewn Dafen, roedd yr eitemau wedi cael eu symud i gwpwrdd storio ac wedi hynny fe'u cadwyd ar fwrdd yn yr ystafell loceri a oedd â phroblemau o ran glendid, gan fod y bwrdd yn cael ei ddefnyddio i wneud diodydd cynnes fel te a choffi. Mae hyn yn groes i sut y disgwylir i eitemau crefyddol gael eu storio ac ar ôl ymgynghori â'r arolygydd ar ddyletswydd yn y ddalfa, bydd yr eitemau hyn bellach yn cael eu cadw ar silffoedd yn ystafell loceri'r staff meddygol a amlygwyd hyn hefyd fel argymhelliad gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. |
| **Hygyrchedd o ran unigolion anabl**<br>• Yn chwarter 3, adroddodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am dri digwyddiad ar draws tair dalfa wahanol ynglŷn ag hygyrchedd ac addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion anabl a gedwir yn y ddalfa. Roedd y rhain yn cynnwys:<br>-A yw matresi mwy trwchus yn ateb digonol ar gyfer meinciau is mewn celloedd dalfa yn Nafen. Mae meinciau is wedi'u defnyddio i atal y niwed posibl a allai ddigwydd i unigolion a gedwir yn y ddalfa trwy syrthio. |

-Codwyd pryderon sut y byddai unigolion anabl neu unigolion â phroblemau symudedd a gedwir yn y ddalfa yn cael mynediad i gyfleusterau toiledau yn Hwlffordd.

-Bu digwyddiad yn ymwneud ag unigolyn a gedwir yn y ddalfa a oedd yn fyddar yn Aberhonddu. Roedd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cyfathrebu trwy ysgrifennu a chyfnewid negeseuon. Codwyd cwestiynau ynghylch hwyluso gwersi Iaith Arwyddion Prydain sylfaenol i staff y ddalfa a hygyrchedd dolen clyw o fewn y ddalfa.

- Ers chwarter 4, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa bellach wedi sefydlu bod gan bob dalfa y canlynol:
  - Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn.
  - Cyflenwad o fatresi trwchus
  - Llinellau gweld mewn nifer fach o gelloedd i helpu'r unigolion a gedwir yn y ddalfa hynny sydd ag amhariad ar y golwg.
  - Dolenni clyw, i helpu'r rhai sydd ag anawsterau clywed.
  - Toiledau cymunol wedi'u haddasu.
  - CD sy'n cynnwys hawliau a hawlogaeth unigolion a gedwir yn y ddalfa yn Iaith Arwyddion Prydain.

---

<u>Adborth cadarnhaol</u>

- Er mwyn pwysleisio craffu gwrthrychol, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, dros gyfnod y flwyddyn, wedi tynnu sylw at nifer o sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â'r ffordd y mae staff y ddalfa wedi'u trin a darparu ar eu cyfer yn bersonol. Mae sylwadau hefyd wedi'u gwneud gan unigolion a gedwir yn y ddalfa yn nodi pa mor dda y cawsant eu trin neu'r ffordd y mae staff y ddalfa wedi ymddwyn o dan bwysau sy'n gysylltiedig â gwaith. Dyma uchafbwyntiau rhai o'r sylwadau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Roedd blwch yn cynnwys teganau a gemau i blant wedi'i roi yn un o ystafelloedd y ddalfa sy'n darparu eitemau tynnu sylw defnyddiol iawn ac yn ychwanegiad croesawgar at yr opsiwn presennol o bêl feddal.
- Ar nifer o achlysuron, adroddwyd pa mor "groesawgar" a "chymwynasgar" y mae rhingylliaid y ddalfa ledled Dyfed-Powys wedi bod wrth gynorthwyo ymweliadau'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.
- *"Roedd cyfathrebu a chefnogaeth y tîm ar ddyletswydd yn ganmoladwy. Roedd pob un yn amldasgio yn bwyllog tra'n cael eu difrïo. Roedd gan bob unigolion a gedwir yn y ddalfa gynlluniau ond roedd y ddalfa yn cael eu siomi gan asiantaethau eraill. Roedd gan y tîm naw o*

*unigolion a gedwir yn y ddalfa, rhingyll y ddalfa, swyddog y ddalfa, a nyrs. Roedd wyth o'r naw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn agored i niwed. "Gwaith tîm anhygoel o dda".*

- Adroddwyd bod staff y ddalfa wedi bod yn barod iawn i helpu aelodau newydd o'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gan ddarparu teithiau ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt yn y Drenewydd ac Aberhonddu.

<u>Materion 'Eraill' a nodwyd</u>

- Dyma ddadansoddiad o'r materion 'Eraill' a nodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.
- **Golchi dillad** - Cofnodwyd dau ddigwyddiad yn Drenewydd lle nad oedd digon o dywelion ac, ar achlysur arall, adroddwyd na ddychwelwyd unrhyw dywelion na blancedi. Mae'r arolygydd lleol yn ymwybodol o'r mater ac wedi nodi ei fod yn monitro'r sefyllfa ar ôl siarad â'r cyflenwr.
- **Stociau bwyd** - Yn Drenewydd, roedd cyflenwadau bwyd yn cael eu cyflenwi i Aberhonddu gan olygu bod yn rhaid i aelodau staff y ddalfa yrru i'w casglu, sef tua dwy awr o daith bob ffordd. Mae hyn wedi arwain at ambell achlysur lle mae cyflenwad wedi bod yn isel. Mae'r arolygydd lleol wedi rhoi sicrwydd bod y mater hwn wedi'i ddatrys gyda chyflenwadau bwyd bellach yn cael eu danfon yn uniongyrchol i'r Drenewydd.
- **Hylendid** - Awgrymwyd yn <u>Adroddiad Ymchwiliad y Fonesig Vera Baird</u> y dylid sicrhau fod darpariaethau glanweithiol ar gael i fenywod yn y ddalfa. Nododd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa nad oes gan y ddarpariaeth yn Hwlffordd unrhyw gynnyrch glanhau dwylo na bagiau ar wahân i waredu eitemau a ddefnyddiwyd. Awgrymodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd fod rhai eitemau a phecynnau'n cael eu gadael ar agor a allai fod yn anhylan. Nododd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd fod problem gyda'r biniau a ddarperir yn Hwlffordd. Cwestiynodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa pa mor lan yw'r biniau hyn gan fod angen pwyso i lawr ar y bin i'w agor er mwyn gwaredu gwastraff. Cafodd y biniau pedal eu cyrchu gan yr heddlu a'u darparu i'r ddalfa ar ôl cael yr adborth hwn.
- **Poster i unigolion a gedwir yn y ddalfa** - Tynnodd staff dalfa Aberteifi sylw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa at y ffaith y byddent yn gwerthfawrogi poster i ddangos i unigolion a gedwir yn y ddalfa na fydd trais na cham-drin tuag atynt yn cael ei oddef. O ganlyniad i

gyfarfod diweddar Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, mae'r heddlu'n archwilio cyfleoedd i greu poster i unigolion a gedwir yn y ddalfa wneud sylwadau ar eu triniaeth, cwyno a chanmol.

- **Seinydd allanol** - Codwyd materion yn Aberystwyth lle mai dim ond drwy'r brif dderbynfa y gellir cael mynediad i'r ddalfa. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael problemau o ran cael mynediad ar unwaith y tu allan i oriau, ac mae'n rhaid iddynt gysylltu â rhif 101. Mae hyn yn arwain at oedi hir naill ai pan maent yn siarad â'r unigolyn sy'n trin y galwadau neu pan mae'r unigolyn sy'n trin y galwadau yn cysylltu â'r ddalfa. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn awgrymu y dylai fod seiniwr allanol ar gael i sefydliadau allanol gan gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol, cyfieithwyr, ac oedolion priodol er mwyn iddynt allu cael mynediad. Mae'r heddlu wedi nodi bod y gwaith hwn wedi'i drefnu ac yn debygol o ddigwydd ar ôl cyfnod yr haf 2025.
- **Esgidiau cynfas** - Gofynnir i unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn rheolaidd a fyddent yn hoffi cael esgidiau cynfas pe gofynnwyd iddynt dynnu eu hesgidiau. Yn Hwlffordd, cafodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafodaeth lle nad oedd esgidiau cynfas yn cael eu cynnig gan eu bod yn cael eu taflu ar ôl iddynt gael eu hagor. Felly ni fydd yr heddlu yn mabwysiadu system awtomatig o roi esgidiau cynfas i unigolion a gedwir yn y ddalfa gan fod goblygiadau sylweddol o ran cost a'r amgylchedd.
- **Pryder ynghylch clymiadau** - gofynnodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a oes angen iddynt gymryd deunydd y gellir ei ddefnyddio i wneud clymiadau megis lasys a/neu gortynnau dillad oddi wrth unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd ar lefel un, arsylwadau bob 30 munud gan staff. Cyfeiriodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa at ddatganiad y Coleg Plismona sy'n nodi y dylid 'cael gwared ar glymiadau' ar lefel tri. Holodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn y cyfarfod Panel diweddar a yw diwylliant sy'n groes i risg yn peryglu hawliau ac urddas unigolion a gedwir yn y ddalfa? Mae'r heddlu'n cydnabod bod angen ailasesu'r diwylliant sy'n ymwneud â rheoli risg ar gyfer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed er mwyn cadw eu hurddas trwy gadw eu dillad ar gyfer Lefel Arsylwi 1. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.
- **Diffyg dillad gwrth-niwed** — Gwnaeth yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafod y cynllun arfaethedig i gael gwared â'r dillad gwrth-niwed o ddalfeydd a rhannwyd rhai pryderon a godwyd gan staff mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael i liniaru risg unigol. Cynigiodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a ellid cael gwared â'r dillad gwrth-niwed yn raddol i gynorthwyo staff y ddalfa a chynnig y byddai rhaid gofyn am awdurdodiad arolygydd er mwyn eu defnyddio. Nododd yr heddlu nad yw dillad gwrth-niwed yn cael eu cydnabod fel arfer da, nad oes unrhyw urddas i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa wrth eu defnyddio, a bod y rhesymeg dros

eu defnyddio bron yn sicr o arwain at drais ac anfodlonrwydd wrth reoli risg y carcharor. Ers y cynlluniau arfaethedig i ddileu dillad gwrth-niwed, nid oes unrhyw gofnod ohonynt yn cael eu defnyddio yn chwarter 4 a allai awgrymu nad oes eu hangen.

- **Marciwr ar gyfer Mecca** — mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cynnig y dylid rhoi marciwr ar wal y ddalfa sy'n pwyntio tuag at Mecca ar gyfer unigolion Mwslim a gedwir yn y ddalfa i'w helpu i allu wynebu'r cyfeiriad cywir pan maent yn gweddïo. Mae arolygwyr y ddalfa wedi nodi bod gan unigolion Mwslim a gedwir yn y ddalfa gwmpawd ar eu matiau gweddi, ond mae angen sefydlu a yw'r cwmpawd wedi'i wnïo i'r mat neu a yw'n gwmpawd ar wahân.

<u>Recriwtio</u>

- Yn ystod y flwyddyn, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gan gynnwys:
    - Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.
    - Sioe Frenhinol Cymru.
    - Diwrnodau agored yng ngorsafoedd heddlu Aberhonddu a'r Drenewydd.
    - Sioe Sir Benfro.
    - Ymweliadau â mosgiau yn Hwlffordd ac Aberdaugleddau.
- Llwyddodd y cynllun i recriwtio pump aelod newydd, tri yn Sir Gaerfyrddin, un yn Sir Benfro a'r llall yng Ngheredigion dros y flwyddyn.
- Mae tri yn aros am wiriad fetio a fydd yn cael eu lleoli yng Ngogledd Powys a De Powys.

<u>Ymweliadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â'r ddalfa</u>

- Cynhaliodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu nifer o ymweliadau ar draws dalfeydd Dyfed-Powys dros y flwyddyn ddiwethaf.




- Ar 4 Mehefin 2024, aeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyda’r Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa ar ymweliad i Dafen, ac ochr yn ochr â’r Prif Arolygydd Jenna Jones a gyda chymorth yr Arolygydd Dros Dro Matthew Jenkins, tynnwyd casgliad o luniau a chlipiau fideo i dynnu sylw at y gwaith da y mae Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn ei wneud yn rheolaidd a hefyd i hysbysebu ein hymgyrch recriwtio. Cafodd yr ymweliad ei nodi ar ein tudalen cyfryngau cymdeithasol, y gellir ei gweld yma: Instagram.




- Ar 26 Medi 2024 ochr yn ochr ag ymweliad Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa, aeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddalfa Aberhonddu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun ac i asesu sut roedd y ddalfa yn gweithredu’n ddyddiol. Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu:
*"Roedd yr ymweliad â dalfa Aberhonddu yn gadarnhaol iawn, ac roeddwn i’n falch o weld â’m llygaid fy hun pa mor dda mae’r tîm yn rheoli’r gweithrediadau dyddiol. Roedd mewnbwn Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn amhrisiadwy wrth asesu lles unigolion a gedwir yn y ddalfa, ac rwy’n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cyfleusterau’n parhau i fod o’r safon uchaf."*



- Ar 13 Tachwedd 2024, aeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i gefnogi taith y Llysgenhadon Ieuenctid o amgylch dalfa Dafen.
- Roedd yr adborth cyffredinol gan y Llysgenhadon Ieuenctid yn gadarnhaol iawn gan nodi pa mor lân oedd y ddalfa a pha mor barod i helpu oedd staff y ddalfa wrth ateb eu hymholiadau ac wrth hwyluso'r daith.
- Mae rhagor o fanylion a lluniau i'w gweld ar ein tudalen Instagram.

## Hyfforddiant y Gymraeg

- Fel rhan o strategaeth y Gymraeg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2024/2025, rhoddwyd y cyfle i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wella eu sgiliau yn y Gymraeg. Gwnaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gefnogi Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a gwirfoddolwyr eraill i ddysgu Cymraeg lefel un dros chwarter 4, mewn cydweithrediad â thiwtor Cymraeg yr heddlu.